

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

cyngorvbala@outlook.com

Y Maer: O Rhys Evans Mayor



Gwysir Cyngorwyr i fynychu cyfarfod o Gyngor Tref Y Bala

Nos Iau, Gorffennaf 1af 2021, am 7.00pm o'r gloch trwy gyfrwng Zoom

Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor; gellir derbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda – cysyllter gyda'r Clerc.

Cyflwyniad gan / *Update on recent developments by* Mr Julian Birley, Rheilffordd Llyn Tegid

1. **Croeso**, sylwadau'r Maer, derbyn ymddiheuriadau
2. **Buddiant:** Derbyn datganiadau buddiant
3. **Cofnodion:** Cadarnhau cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mehefin 3ydd 2021
4. **Materion y Clerc:** Yr Henblas a Rheolau Covid
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyn Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd.
6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyn adroddiad Tony Parry
7. **Is-bwyllgorau:** Derbyn adroddiadau
8. **Materion Cynllunio:** (*Trafodir unrhyw geisiadau cynllunio a ddaw i law rhwng cyhoeddi'r Agenda â'r Cyfarfod*)

Ymgynghoriad e-bost: Cymeradwywyd :

- i. Gosod pwynt gwefru cerbydau trydan, piler bwydo a gwaith cysylltiedig ym Maes parcio ger Y Grîn, Y Bala.
- ii. Estyniad unllawr ar flaen yr eiddo Llygad y Llyn, 6 Maes Treflyn, Bala. LL23 7YZ

I'w drafod:

NP5/53/581 32 Bro Eryl, Bala LL23 7AS Adeiladu estyniad deulawr yn y cefn

9. Materion Cyllid:

- i. Ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf
- ii. Ystyried anfonebau i'w talu: Glanhau Llochesi; Cyflog
- iii. Ystyried ceisiadau am gefnogaeth ariannol

10. Gohebiaeth: *Yn cynnwys:*

- i. Neges oddi wrth Gyngor Cymuned Pistyll parthed parcio dros nos
- ii. Neges oddi wrth Gyngor Tref Nefyn parthed Creu Memorandwm o Ddealltwriaeth ynglŷn â Pholisi Iaith

11. Partneriaeth Penllyn: derbyn adroddiad y cynrychiolwyr

12. Asedau'r Cyngor: derbyn adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr

13. Materion lleol y Cyngorwyr Tref (*mae angen rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Clerc*)

Lis Paw (Clerc)